



Ein Cyf: qA903695/1
Eich Cyf:

Dyddiad: 13 Tachwedd 2012

Annwyl Syr/Fadam,

**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984, ADRAN 1.
RHEOLIADAU GORCHMYNION TRAFFIG YR YSGRIFENNYDD GWLADOL
(GWEITHDREFN) (CYMRU A LLOEGR) 1990
GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 TRUNK ROAD (LOGGERHEADS, GER YR
WYDDGRUG, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD AROS) 201-**

CYFLWYNIAD

1. Mae'r swyddogaethau mewn perthynas â Gorchmynion Traffig Ffyrdd wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r penderfyniad o fewn maes cyfrifoldeb Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ("y Gweinidog"), un o Weinidogion Cymru.

Y CEFNDIR

2. Mae'r cynigion hyn yn dilyn sylwadau a wnaed gan Gyngor Cymuned Gwernymynydd yn datgan pryder oherwydd bod pobl yn parcio'u cerbydau ar y troetffyrdd cyfagos i'r gerbyttfordd, tra'n ymweld, yn bennaf, â Pharc Gwledig Loggerheads. Mae parcio annetholus o'r math hwn ar droetffyrdd ac ar ymyl y briffordd yn amharu ar symudiadau cerddwyr ac yn fygythiad i ddiogelwch ar y ffyrdd; cofnodwyd hyd at 60 o gerbydau wedi eu parcio'n annetholus ar benwythnosau brig, a hyd at 100 yn ystod gwyliau banc. Byddai'r cyfyngiadau parcio hyn yn ychwanegol at y cyfyngiadau sydd eisoes mewn grym yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd (Loggerheads) (Gwahardd Aros) 1976, ac yn eu gwella.

3. Cyhoeddwyd y Gorchymyn drafft ar 19 Mai 2011, ac yn unol â Rheoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) caniatawyd 21 diwrnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau.



CEFNOGAETH

4. Symudwyd i gyhoeddi'r Gorchymyn drafft yn dilyn cais a wnaed gan Gyngor Cymuned Gwernymynydd ac a gefnogwyd gan Darren Millar AC. Cyn cyhoeddi'r Gorchymyn drafft, cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda chynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a'r Heddlu; ac yr oeddent i gyd yn datgan eu cefnogaeth i'r egwyddor o osod cyfyngiadau parcio ychwanegol.

GWRTHWYNEBIADAU DECHREUOL

5. Daeth 9 o lythyrau i law, a oedd yn gwrthwynebu: 5 ohonynt gan breswylwyr eiddo lleol a oedd yn wynebu'r briffordd; 1 oddi wrth y cynghorydd lleol, ar ran y preswylwyr hynny, a 3 oddi wrth fusnesau lleol. Roedd hyn yn cynnwys deiseb a lofnodwyd gan 161 o gwsmeriaid Caffi Florence. Prif seiliau'r gwrthwynebiad oedd y canlynol:

i. Bydd cyfyngu ar barcio yn y cilfannau yn amharu ar allu preswylwyr lleol i barcio yn agos at eu cartrefi, a gallu cwsmeriaid i siopa yn lleol.

ii. Bydd yn cael effaith ddifrifol ar fusnes y siop leol.

iii. Bydd yn effeithio ar ddyfodol Tafarn y We Three Loggerheads.

iv. Bydd yn effeithio ar hyfywedd Caffi Florence.

vi. Ni ddylid cyflwyno'r cyfyngiadau cyn gwneud darpariaeth amgen ym Mharc Gwledig Loggerheads.

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU

6. Ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau, mae'r cyfyngiadau cilfan wedi eu hadolygu, a chafwyd bod modd tynnu'r cyfyngiadau hynny allan o'r Gorchymyn drafft heb amharu ar fwriadau'r Gorchymyn drafft o ran diogelwch. Ar ôl hysbysu'r gwrthwynebwyr ynghylch yr addasiad arfaethedig hwnnw, tynnwyd yn ôl 6 o'r gwrthwynebiadau, gan adael yn weddill un gwrthwynebiad gan breswilydd lleol a gwrthwynebiadau perchnogion Tafarn y We Three Loggerheads a Chaffi Florence.

7. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r astudiaeth ddichonoldeb ynghylch darpariaeth barcio yn y dyfodol yn Loggerheads, a gynhaliwyd gan Wasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych, ac a ysgrifennwyd cyn cynnig y cyfyngiadau sy'n destun y Gorchymyn drafft presennol. Nid oes pwerau gan Weinidogion Cymru i gaffael tir ar gyfer lleoedd parcio, a Chyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) sy'n gyfrifol am ddarparu parcio ym Mharc Gwledig Loggerheads. Yn sgil y cais am ddarparu lleoedd parcio ychwanegol cyn dod â'r cyfyngiadau i rym, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Cyngor ystyried ymhellach y mater o ddarparu lleoedd parcio ychwanegol ym Mharc Gwledig Loggerheads. Er bod y Cyngor wedi cydnabod ei fod yn edrych ar ddichonoldeb darparu cyfleusterau o'r fath, ac ar ganol proses o brynu tir i'w alluogi i wneud hynny, dywed hefyd nad yw eto wedi sicrhau cyllid i fynd ymlaen â'r gwaith.

8. Yng ngoleuni'r ymateb hwn gan y Cyngor, mae'r cyfyngiadau arfaethedig ger y fynedfa i'r chwarel wedi eu hadolygu, a chafwyd bod modd tynnu'r rhain hefyd allan o'r Gorchymyn drafft, a thrwy hynny gadw'r ddarpariaeth barcio bresennol ar gyfer hyd at 8 o gerbydau yn y lleoliad hwnnw.

9. Mae ceisiadau'r gwrthwynebwyd, felly, wedi eu bodloni i'r graddau sy'n bosibl, a byddai gohirio'r cyfyngiadau eraill ymhellach yn peryglu diogelwch.

YSTYRIAETH A PHENDERFYNIAD Y GWEINIDOG

10. Yn rhinwedd rheoliad 8 o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990 caniateir disgresiwn ynglŷn â chynnal neu beidio â chynnal ymchwiliad mewn achos pan geir gwrthwynebiadau. Mae gan Weinidogion Cymru, felly, y disgresiwn i hepgor ymchwiliad lleol cyhoeddus, os bodlonir hwy nad oes angen cynnal ymchwiliad o'r fath. Yn yr achos presennol, wrth arfer y disgresiwn hwnnw, mae'r Gweinidog wedi ystyried natur y gwrthwynebiadau yn ogystal â'r gwrthdystiadau yn ymateb iddynt, ac wedi dod i'r casgliad fod ganddo wybodaeth ddigonol ger ei fron i roi ystyriaeth lawn i'r gwrthwynebiadau.

11. Mae'r Gweinidog dan ddyletswydd i fonitro diogelwch y rhwydwaith cefnffyrdd, ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynlluniau sydd â'r nod o wella diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r Gweinidog wedi ystyried y cyfyngiadau arfaethedig a gyhoeddwyd a'r gwrthwynebiadau iddynt, ac yn nodi bod y rhain wedi derbyn sylw manwl, a arweiniodd at liniaru ac addasu fel y crybwyllir ym mharagraffau 6 ac 8 uchod. Er bod y Gweinidog yn nodi pryderon perchnogion Caffi Florence a Thafarn y We Three Loggerheads, nid yw'r mater o ddarparu cyfleusterau parcio amgen yn dod o fewn cwrdd ei gyfrifoldebau, ac nid yw'r parcio annetholus presennol yn fater y gall barhau i'w oddef yn wyneb y pryderon a fynegwyd, ac a dderbynnir, ynghylch diogelwch cerddwyr a'r priffyrdd.

12. Gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion a godwyd, gan gynnwys yr addasiadau arfaethedig a fyddai'n rhannol fodloni'r gwrthwynebiadau a gafwyd, mae'r Gweinidog o'r farn y byddai'r gwaharddiad arfaethedig ar aros, ar y darn hwn o gefnffordd yr A494, yn gwella diogelwch cerddwyr a defnyddwyr y briffordd yn gyffredinol. Mae wedi ei fodloni, felly, fod y buddion o ran diogelwch, a geid o'r Gorchymyn addasedig arfaethedig, yn gorbwyso'r pwyntiau o wrthwynebiad nas bodlonwyd. O ganlyniad, mae'r Gweinidog wedi penderfynu gwneud y Gorchymyn fel y'i hysbysebwyd, gan gynnwys yr addasiadau a adlewyrchir ym mharagraff 13 isod. Wrth gyrraedd y penderfyniad hwn, mae'r Gweinidog wedi gofyn i'w swyddogion gadw mewn cysylltiad â Chyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r mater o ddarparu cyfleuster parcio amgen, yn enwedig yng ngoleuni pryderon perchnogion Caffi Florence a Thafarn y We Three Loggerheads ynglŷn â hynny.

ADDASIADAU

13. Addesir y Gorchymyn drafft i adlewyrchu'r newidiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 6 ac 8 uchod. Adlewyrchir y newidiadau hyn yn yr Atodlen i'r Gorchymyn, a dangosir hwy yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

GWNEUD Y GORCHYMYN

14. Daw'r Gorchymyn i rym ar ddyddiad sydd i'w gytuno rhwng Gweinidogion Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a'r Asiantaeth Cefnffyrdd, ac a gadarnheir pan gyhoeddir yr Hysbysiad Cyhoeddus i'r perwyl bod y Gorchymyn wedi ei wneud.

YR HAWL I HERIO

15. O fewn 6 wythnos o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym, caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn gyflwyno cais i'r Uchel Lys sy'n cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a) nad oes pŵer i roi'r awdurdodiad a roddir gan y Gorchymyn
neu
- b) bod buddiannau'r person hwnnw wedi eu peryglu'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol sy'n berthnasol i'r Gorchymyn.

Yr eiddoch yn gywir,

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

ATODIAD

YR ATODLEN

Darnau o Gefnffordd yr A494 yn Loggerheads ger yr Wyddgrug yn Sir Ddinbych

Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Gadole i bwynt 32 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o dan sylw.

Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 15 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth Village Road i bwynt 33.5 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o dan sylw.

Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 96.5 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth Village Road, i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 895 metr.

Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Gadole i bwynt 54.5 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o dan sylw.

Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth Village Road i bwynt 82 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o dan sylw.

Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 107 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth Village Road, i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 773 metr.